# DAVIES, JOHN OSSIAN (1851 - 1916), gweinidog gyda'r Annibynwyr ac awdur

**Enw:** John Ossian Davies
**Dyddiad geni:** 1851
**Dyddiad marw:** 1916
**Rhiant:** Phoebe Davies
**Rhiant:** Daniel Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Thomas Mardy Rees

Ganwyd yn Pendre, Aberteifi, 10 Tachwedd 1851, yn fab i Daniel a Phoebe Davies. Dechreuodd fel argraffydd a newyddiadurwr, bu'n golygu *Y Fellten* ym Merthyr Tydfil, a daeth yn ysgrifennydd Cymdeithas Ddirwestol De Cymru. Dechreuodd bregethu ym Merthyr Tydfil ac aeth i Goleg Coffa Aberhonddu (1873). Cafodd ei wahodd i ddilyn William Rees ('Gwilym Hiraethog') yn Lerpwl, eithr dewisodd dderbyn galwad i'r Tabernacl (Cymraeg), Llanelli, 1876. Symudodd yn 1880 i Herbert Place (Saesneg), Abertawe; oddi yno aeth i Tollington Park, Llundain (1883). Yn 1888 aeth i Bournemouth, a thra y bu yno codwyd capel mawr Richmond Hill. Dychwelodd i Lundain yn 1897 i fod yn weinidog Paddington Chapel. Cyhoeddodd bregethau o dan y teitlau - *Old yet ever new*, 1904, a *The Dayspring from on High*, 1907. Bu farw 24 Medi 1916, yn Shortlands, Kent.

## Awdur

**Y Parchedig Thomas Mardy Rees**, (1871 - 1953)

## Ffynonellau


*Album Aberhonddu ... o'r flwyddyn 1755 hyd 1880* (1898), 281

*The Congregational Year Book*, 1917


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 305029536

Wikidata: Q20733579


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu